

Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Sadwrn - Saturday 07/02/2026

06:00 CYW (R) (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

*Fun-filled programmes for younger viewers.***06:00 CYWION BACH - Siwmpwr (R) (S) (SC) (HD)**

Mae gair gwyh heddiw. Dere i ddysgu ac arwyddo'r gair Siwmpwr gyda Bip Bip, Pi Po, Bop a Bw!

*There is a great word today. Come to learn and sign the word Siwmpwr (Jumper) with Bip Bip, Pi Po, Bop and Bw.***06:10 PENTRE PAPUR POP - Mynd yn Bananas (R) (SC) (HD)**

Ar yr antur popwch heddiw mae Help Llaw wedi adeiladu cwrs rhwystrau ar themau banana! Ond gyda Mabli mor benderfynol o ennill, all hi a'r tîm gyrraedd y llinell derfyn gyda'i gilydd?

*On today's popstastic adventure, Help Llaw has built a banana-themed obstacle course! But when Mabli becomes competitive, can she and her team make it over the finish line together?***06:20 BENDIBWMBWLS - Ysgol Bro Cernyw (R) (S) (SC) (HD)**

Mae Ben Dant ar antur newydd i ailgylchu, a throi sbwriel yn sbeshal, a gwastraff yn gampwaith. Heddiw bydd e'n ymuno â disgyblion Ysgol Bro Cernyw i greu trysor penigamp.

*Ben Dant is on a new adventure to recycle and turn rubbish into something special and waste into a masterpiece. Today, he will join the pupils of Ysgol Bro Cernyw to create a superb treasure.***06:30 BLERO YN MYND I OCIDO - Y Glec Fawr (R) (S) (SC) (HD)**

Mae Blero'n teithio'n ôl i ddechrau'r bydysawd i ddarganfod o ble y daeth popeth.

*Blero travels back to the start of the universe to find out where everything came from.***06:45 HELP LLAW - Osian S - Ar y Fferm (R) (S) (SC) (HD)**

Mae Harri'n cael galwad i ddweud fod ffens wedi torri ar y fferm, a'r anifeiliaid am ddianc. Bydd rhaid i Harri ac Osian drwsio'r ffens felly, ac yna bydd cyfle i gyfarfod yr anifeiliaid, mynd am dro ar y ferlen a rhostio malws melys ar y tân

*Harri gets a call to say that a fence has broken on the farm and the animals are trying to escape. Harri and Osian will have to fix the fence.***07:00 YR WHWS - Pos Sgwiglyd (R) (S) (SC) (HD)**

Mae'r Whws yn tybio bod artist wedi paentio patrwm sgwiglyd prydferth ar do Tomi. Maen nhw'n dysgu bod gwlithod yn creu olion sleim i'w helpu i fynd i lle bynnag maen nhw'n dymuno mynd ac er mwyn ffeindio'i gilydd.

*The Woohos think a mysterious artist has painted a beautiful squiggly pattern on Scotty's roof. They learn that slugs make slime trails which help them to go anywhere they want, and to find each other.***07:10 KIM A CAI A CRANC (R) (S) (SC) (HD)**

Mae Cranc yn sylweddoli nad yw nyth pigog Gwylan yn gartre' cyfforddus o gwbl! Felly mae Gwylan yn mynd ag e i rywle arall i chwilio am gartre' newydd.

Cranc realises that Gwylan's spiky nest isn't a comfortable home. Therefore, Gwylan takes him somewhere else to find a new home.

07:25 BLWI - Y Beic (R) (SC) (HD)

Yn y parc, mae Blwi yn ei chael yn anodd i ddysgu sut i reidio ei beic.

At the park, Bluey is struggling to learn how to ride her bike.

07:35 JONI JET - Gwib o'r Gorffennol (R) (SC) (HD)

Mae Joni'n grediniol bod Capsiwl Amser Dyffryn Dryswch yn llawn trysor.

Yn anffodus, mae'r dihirod hefyd, ac yn benderfynol o'i ddwyn. Ond nid aur ac arian yw pob trysor...

Joni is convinced that the Dyffryn Dryswch Time Capsule is full of treasure. Unfortunately, the villains are too, and are determined to steal it. But not all treasure is gold and silver...

07:45 DEIAN A LOLI -a'r Llwynog (R) (S) (SC) (HD)

Mae hi'n amser gwely, ond mae Deian a Loli'n cael lot gormod o hwyl yn chwarae triciau yn lle mynd i gysgu. Ond maent ar fin wynebu sialens a hanner pan ddaw Llwynog, pencampwr y tricia i'w cyfarfod. Cawn weld os gall y ddau gipio'r teitl oddi wrth y Llwynog slei!

It's bedtime, but Deian and Loli are having way too much fun playing tricks instead of going to sleep. But they're about to face a challenge when the Fox, a champion trickster, comes to meet them. Will the twins succeed to snatch the title from the sly Fox!

08:00 STWNSh SADWRN BYW (HD)

Jack, Lloyd, Jed a Cadi sy' yn y stiwdio, gyda llond lle o gemau, LOL-ian ac ambell pei Stwnsh!

Jack, Lloyd, Jed and Cadi are in the studio with games and the odd Stwnsh pie!

08:00 OI! OSGAR - Disgyn Mewn Cariad (R) (HD)

Mae Osgar yn cwrdd â madfall hardd wrth geisio dal pry. Mae'n syrthio mewn cariad â hi ac yna mae'n rhaid iddo ei hachub rhag iâr sydd wedi'i herwgipio!

Osgar meets a beautiful lizard while chasing an appetising fly. He falls in love with her and then has to save her from a chicken!

08:20 Y SMYRFFS - Gwarchodwyr Gwael (SC) (HD)

Pan mae Chwithig a Twmffat yn gofalu am Babi, maen nhw'n meddwl mai dyma'r cyfle i brofi i bawb yn Pentre Smyrffs pa mor Smyrffedig ydyn nhw mewn gwirionedd.

"When Clumsy and Dimwitty take care of Baby, they think it's their chance to prove to all of Smurf Village how smurfsomethy actually are."

08:45 LEGO® FFRINDIAU: AMDANI FERCHED! - Yn Gynt na'r Gwynt (R) (HD)

Gadawa Andrea'r tîm rasio, mae'n rhy wyllt ar y trac rasio. Ond pan mae Mia'n mynd i drwbl enfawr daw Andrea nôl i helpu'r merched. Ydy Andrea'n rhy hwyr?

The ugly truth makes Andrea quit the Race-team - but when Mia gets in trouble all her friends are back to help.

09:35 GWRACH Y RHIBYN (R) (HD)

Cyfres antur lle' mae timau o bedwar yn ceisio cyrraedd lloches ddiogel cyn i'r haul fachlud a dianc rhag Gwrach y Rhibyn. Mae'r timau'n parhau ar y daith ac yn wynebu mwy o sialensau heriol a phosau anodd i symud ymlaen. Ond mae'r Wrach yn gwylio pob cam.

Survival adventure series where the aim is to find shelter before sunset and escape from Gwrach y Rhibyn's clutches. The teams continue their journeys and face more challenges and difficult puzzles before they can move on. But the Witch is watching their every move.

10:00 DREIGIAU CADI - Prawf Gyrru (R) (SL) (HD)

Tra bod y dreigiau eisiau chwarae cuddio mae gan Caddy brawf gyrru pwysig ar y rheilffordd, felly gan na all hi ddod atyn nhw, maen nhw'n penderfynu mynd â'r gêm iddi hi.

While the dragons want to play hide and seek Cadi has an important Driving test at the railway, so as she can't come to them, they decide they'll bring the game to her.

10:15 STORI'R IAITH - Alex Jones (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Alex Jones sy'n mynd ar daith bersonol i ddarganfod mwy am hanes yr iaith Gymraeg. Yn ôl yn Rhydaman mae'n darganfod beth oedd effaith y Chwyldro Diwydiannol ar yr iaith. Yn 1911 roedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ond erbyn 1951 roedd yr iaith ar y dibyn. Beth ddigwyddodd? Bydd yn darganfod mwy am yr ymdrechion arwrol i achub yr iaith, a rôl hanfodol ysgolion Cymraeg yn ei dyfodol. Rhaglen sy'n dathlu'r Gymraeg, Cymreictod a dros 1500 o flynyddoedd o hanes.

Alex Jones goes on a personal journey to explore the history of the Welsh Language. Back home in Ammanford Alex explores how the Industrial Revolution affected the Welsh language. In 1911 there were a million Welsh speakers in Wales, but by 1951 the language was on the brink. What happened? She'll find out more about the heroic efforts to save the language and the essential role of Welsh schools in its future. A series that celebrates the Welsh language, Welshness and over 1500 years of history.

11:15 DIM BYD I'W WISGO - Sioned (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Mae Cadi Matthews ac Owain Williams nol yn y stiwdio steilio i helpu unigolion haeddiannol ffeindio gwisgoedd perffaith ar gyfer achlysuron arbennig. Sioned sy'n cael ei steilio heddi, athrawes ysgol uwchradd sydd hefyd yn fam i'r hyfryd Idris, bachgen dwy flwydd oed.

Cadi Matthews and Owain Williams are back in the styling studio to help deserving individuals find perfect outfits for special occasions. Today, they will be styling Sioned, a high school teacher who is also a mum to the lovely two year old, Idris.

11:45 FFERMIO (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Cyfres gylchgrawn am faterion cefn gwlad.
Weekly countryside and farming magazine.

12:15 LLOND BOL O SBAEN - Chris yn Barcelona (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Yn rhaglen olaf y gyfres mae'r cogydd tanbaid Chris 'Flamebaster' Roberts yn mentro i Barcelona yng Nhatalonia i ddarganfod diwylliant bwyd bywiog y ddinas yng nghwmni'r cerddor Cerys Matthews. O tapas mewn bariau vermuth i ddosbarth meistr paella, bydd Chris yn cael profiadau bwyta bythgofiadwy.

In the final episode of the series, fiery chef Chris 'Flamebaster' Roberts heads to Barcelona in Catalonia to explore the city's vibrant food culture, accompanied by musician Cerys Matthews. From tapas in vermuth bars to a paella masterclass, Chris has unforgettable dining experiences.

13:15 AM DRO! (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Yn y rhaglen yma bydd Owen yn tywys y criw ar daith o gwmpas Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Aiff Kim â nhw i 'nôl i'w phlentyndod yn Nhegryn. Bydd Stephen yn eu harwain o'r Hôb i Gaergwrle, cyn i Shan fynd â nhw i'r tir uchel uwchben Capel Curig.

In this programme, Owen will be taking the crew on a journey around the National Botanic Garden of Wales. Kim takes us back to her childhood in Tegryn. Stephen will be taking them from the Hôb to Caergwrle, before finishing with Shan in the high grounds above Capel Curig.

14:10 PRIODAS PUM MIL - Nicky & Adam (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Y tro hwn, Nicky ac Adam o Llanbedrog sy'n priodi mewn diwrnod llawn chwerthin, cariad a phêl-droed. Gyda'u plant Kian a Kai'n gefnogwyr brwd o Manchester United, ni fydd Lerpwl yn cael dod yn agos... neu bydd Adam yn gweld coch!

This time, Nicky and Adam from Llanbedrog are getting married in a day full of laughter, love, and football. With their children Kian and Kai as die-hard Manchester United fans, no Liverpool fans will be allowed anywhere near... or Adam will see red!

15:05 SGWRS DAN Y LLOER - Bryn Williams (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Bydd Elin Fflur yn siarad gyda'r cogydd Bryn Williams y tro hwn am ei yrfa a'i fywyd personol.

Elin Fflur chats to chef Bryn Williams this time about his career and personal life.

16:00 CLWB RYGBI RHYNGWLADOL - LLOEGR V CYMRU (HD)

Gêm fyw o'r Chwe Gwlad rhwng Lloegr a Chymru. Stadiwm Twickenham. C/G 16.40.

Live Six Nations game between England and Wales. Twickenham Stadium. K/O 16.40.

19:10 NEWYDDION A CHWARAEON (S) (HD)

Newyddion a chwaraeon y penwythnos.

Weekend news and sport.

19:30 STIWDIO 24/7 (R) (S) (SC) (HD)

Yn yr ail o'r gyfres newydd Stiwdio 24/7 bydd Molly Palmer yn cyflwyno detholiad o fandiau mwyaf cyffrous y Sîn Roc Gymraeg. Y tro yma bydd Sywel Nyw yn perfformio dwy gân, bydd DJ Dilys yn ymuno yn y stwdio i drafod ei orsaf radio newydd, Radio Sudd, ac fe fydd perfformiadau hefyd gan Lafant a Dafydd Owain.

In the second of the new series Stiwdio 24/7 Presenter Molly Palmer introduces some of the best bands and artists from the current Welsh rock and pop scene. This time we hear two songs by Sywel Nyw, DJ Dilys joins Molly in the studio to discuss his new radio station, Radio Sudd, and we hear performances from Lafant and Dafydd Owain.

20:00 CANU GYDA FY ARWR: BRYN FÔN (R) (S) (SC) (HD)

Rhys Meirion sy'n gwireddu breuddwydion trwy roi cyfle unigryw i dri unigolyn lwcus gael canu gyda'u harwr cerddorol. Bydd Rhys yn teithio Cymru i gwrdd â chantorion amatur o bob oed sydd â lleisiau anghyffredin o dda, stori gwerth-chweil i'w rannu ac sy'n breuddwydio am gael canu gyda'u harwr. Yn y bennod gyntaf bydd yr athrawes Gymraeg Sioned Jones-Bevan, gweithwr bar o Wrexham Aled Griffiths a'r gweithiwr NHS o Borthmadog Dyfan Roberts yn cael cyfle i rannu'r llwyfan a pherfformio gyda'u harwr, Bryn Fôn.

Rhys Meirion makes dreams come true by giving three lucky individuals the chance to sing with their musical hero or heroine. Rhys travels the length and breadth of Wales to meet amateur singers of all ages who have impressive singing voices, a good story and who dream of singing with their hero. In the first episode, highschool schoolteacher Sioned Jones-Bevan, Wrexham barman Aled Griffiths and Dyfan Roberts, an NHS worker from Porthmadog, are given the opportunity to share the stage and perform with their hero, Bryn Fôn.

21:00 ENTREE AMOUR & MYNYDD (R) (S) (SC) (HD)

Cipolwg ar y gyfres newydd gyda Meilir Rhys a Mari Beard. Mae nhw'n crwydro'r Chalet newydd, sgwrsio efo ambell aelod o'r cast a gyda chyflwynydd y gyfres, Elin Fflur.

A look at the new series with Meilir Rhys and Mari Beard. They explore the new Chalet, chat with a few members of the cast, and talk with the presenter, Elin Fflur.

21:30 AR Y TRACS: Y TREN I'R GEM (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Mae penwythnos y gêm fawr wedi cyrraedd - Cymru yn erbyn Lloegr. Mae 'na dipyn o gyffro a phawb ar dân eisiau cael gafael ar docyn. Cyn pen dim bydd y trenau'n orlawn o gefnogwyr rygbi ar eu ffordd i'r Stadiwm, a chriw Welsh Rail yn eu canol nhw'n trio cadw trefn ar bawb. Ymunwch â Reality, Pandora a'r tîm wrth iddyn nhw fynd ar antur liwgar arall. Ond daliwch yn dynn, gall unrhywbeth ddigwydd gyda'r criw yma wrth y llyw.

It's the weekend of the big game. Wales v England. There's excitement in the air, and the tickets are like gold dust. Soon the trains will be packed full of rugby supporters on their way to the Stadium, the Welsh Rail crew trying to keep them all in check. Join Reality, Pandora and the team as they go on another colourful adventure. But hold on tight, there's no guessing what might happen next, not with these guys at the helm.

22:55 IOLO A DEWI: Y TAD A'R MAB A ZAMBIA (R) (S) (SC) (HD)

Cawn hynt a helynt Iolo Williams a'i fab Dewi wrth iddynt drefnu taith saffari gyda'i gilydd ar gyfer grŵp o ymwelwyr ym Mharc Cenedlaethol De Luangwa yn Zambia. *We get to see the adventures of Iolo Williams and his son Dewi as they take a group of visitors on safari to South Luangwa National Park in Zambia.*

00:00 DIWEDD/CLOSE

Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Sul - Sunday 08/02/2026

06:00 CYW (R) (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

06:00 TOMOS A'I FFRINDIAU - Ffwdan y Ffilm (R) (SC) (HD)

Mae Tomos yn dychmygu ei fod yn arwr sy'n helpu Nia i gyflwyno sgrin mewn cyflwr perffaith.

Tomos imagines he is a hero helping Nia deliver a screen in perfect condition.

06:10 ANIFEILIAID BACH Y BYD (R) (S) (SC) (HD)

Dewch ar antur gyda ni i gwrdd ac anifeiliaid bach y byd. Yn y rhaglen hon creaduriaid yr ardd fydd yn cael y sylw. Y Mwydyn a'r Pry cop.

Come with us on a journey around the world to meet some of the little animals that live on our planet. In this programme we look at animals that live in our garden. The Worm and the Spider.

06:20 PABLO - Tom (R) (HD)

Mae gan Pablo ei ffordd ei hun o weld y byd, ond mae o'n nerfus pan mae mam yn dweud ei bod hi eisiau iddo gwrdd â'i ffrind arbennig hi.

Mum wants Pablo to meet her special friend.

06:30 DREIGIAU CADI - Rocedi (R) (S) (SC) (HD)

Wrth i noson tân gwyllt nesáu, mae Cadi yn ysu am gadw Bledd a Cef i ffwrdd o unrhyw dân gwyllt rhag ofn y byddan nhw'n anadlu arnyn nhw a'u rhoi nhw ar dân! Mae hi hefyd yn poeni bydd y tân gwyllt yn codi ofn arnynt oherwydd y swm felly mae'n mynd ati i'w cael nhw i ymgynefino. Gyda chymorth Ger y Gard a Crugwen maent yn mynd ati i wneud cymaint o synau rhyfedd ag sy'n bosib!

As fireworks night approaches, Cadi is desperate to keep Bledd and Cef away from any fireworks in case they breathe on them and set them on fire! She is also worried that the fireworks will scare them because of the noise so she sets out to get them acclimatised. With the help of Ger y Gard and Crugwen they set out to make as many strange noises as possible!

06:45 BRETHYN A FFLWFF - Creision Yd (R) (S) (SC) (HD)

Pan mae Fflwff yn troi'i drwyn ar ei ddanteithion pen-blwydd, mae Brethyn yn sylweddoli bod modd cael gormod o greision yd - hyd yn oed i Fflwff!

When Fluff isn't interested in his surprise birthday treat, Tweedy learns that there is such a thing as too many crunchies for the usually insatiable Fluff!

06:50 ANNIBENDOD - Bananas (R) (S) (SC) (HD)

Sut mae Anni'n bwriadu cael gwared ar y bananas ych a fi mae Mam-Gu wedi roi yn ei bocs bwyd? Beth bynnag y datrysiad, mi fydd yna annibendod ymhobman!

How will Anni get rid of the yucky bananas that Mam-gu's put in her lunchbox? Whatever the plan, there will be chaos everywhere!

- 07:00 GUTO GWNINGEN - Hanes Y be Dachi'n Galw (R) (SC) (HD)**
 Mae Guto Gwningen a'i ffrindiau'n trio darganfod beth yw dyfais newydd tad Benja, Mr Sponcen.
Guto Gwningen and his friends try to find out what Benja's dad's invention is used for.
- 07:15 NE-WFF-ION (R) (S) (SC) (HD)**
 Newyddion i blant hyd at 6 oed a fydd yn diddannu ac yn eu dysgu am y byd o'u cwrpas nhw yn ei holl amrywiaeth.
News for children up to 6 years old which will entertain and teach them about the world in all its diversity.
- 07:30 SION Y CHEF - Nôl at Natur (R) (HD)**
 Mae Siôn ac Izzy'n penderfynu cyfuno gwaith cartre' Izzy gyda chwilio am fwyar duon i'r bwyty.
Siôn takes Izzy into the countryside so that she can spot all the animals in her nature watch homework while he seeks out more fresh blackberries for his smoothies.
- 07:40 CACAMWNCI (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Cacamwnci yn ôl gyda mwy o sgetsys dwl a doniol! Cymeriadau newydd sbon fel Iestyn Ymestyn, Tesni Trwsio Popeth, Dani Rheolaeth, a rhai o'r ffefrynnau fel Plismon Preis, Vanessa drws nesa a Delyth Dylwythen. Byddwch yn barod am lond bol o chwerthin!
Cacamwnci is back with more funny and silly sketches! There are new characters like Iestyn Ymestyn, Tesni Trwsio Pobeth, Dani Rheolaeth, and a few favourites like Plismon Preis, Vanessa drws nesa and Delyth Dylwythen . Be ready for a belly full of laughs!
- 07:55 TWM TWRCH - Tyrchod ar Olwynion (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae heddiw'n ddiwrnod Cystadleuaeth Sglefrio yng Nghwmtwrch a mae pawb yn ymuno yn yr hwyl hyd yn oed Twm Twrch!
Today there is a Skating Competition in Cwmtwrch and everyone joins in the fun, even Twm Twrch!
- 08:05 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae hi'n ddiwrnod mabolgampau yn Parc Glan Gwil ac mae pawb yn mwynhau, ond mae Dion Diogelwch yn gorfod dysgu nad ydi twyllo y peth iawn i'w wneud.
It's sports day at Parc Glan Gwil and everyone is enjoying themselves, but Dion Diogelwch has to learn that cheating is not the right thing to do.
- 08:20 CRAWC A'I FFRINDIAU - Mistar Tidls (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Dan yn tacluso'r tŷ ac yn rhoi ei hen dedi i Cwarc . Buan iawn mae'n difaru ond bellach mae'r gwencwn wedi herwgipio'r Tedi. A fydd Dan a Cwarc yn llwyddo'i gael e nôl?
Dan is having a clear out and gives Cwarc his old teddy bear. Once it's gone, Dan has second thoughts and wants him back. But the weasels kidnap teddy and Dan and Cwarc have to mount a daring rescue mission to get teddy back.
- 08:30 WAW! - Y Corff (R) (S) (SC) (HD)**
 Y corff sy'n cael sylw Awi a chriw Waw y tro yma.
The body gets the attention of Awi and the crew.
- 08:50 PENBLWYDDI CYW (S) (SC) (HD)**
 Cyfle i edych 'nôl dros rai o gyfarchion pen-blwydd yr wythnos.
A look back at some of this week's birthday greetings.

09:00 GRONYN GOBAITH: CYMRY CERN (R) (S) (SC) (HD)

Stori ryfeddol arbrawf mwya'r byd yn CERN, lle mae ffisegwyr o Gymru yn allweddol. O'i dechrau, wedi diwedd yr ail ryfel byd, i'w darganfyddiadau chwyldroadol, heddychlon, mae wedi trawsnewid ffiseg a'n bywydau ni oll.

The remarkable story of the biggest physics experiment in the world, where Welsh scientists are key. From its foundation in the aftermath of World War 2 to its transformational discoveries, it offers a glimmer of hope in a divided world.

10:00 CYNEFIN - Ynys Cybi (R) (S) (SC) (HD)

Ynysoedd Cybi a Môn sydd yn mynd â bryd Heledd Cynwal, Iestyn Jones a Siôn Tomos Owen wrth iddyn nhw fynd ar drywydd straeon difyr a chudd yr ardal. O Ynysoedd y Moelrhoniaid a'r nythfa fwyaf o Fôr Wenoliaid ar ynysoedd Prydain trwy dref porthladd Caergybi i brydferthwch Ynys Llanddwyn, mae'r môr wedi dylanwadu ar fywyd a thirwedd yr ardal dros y canrifoedd. Byddwn hefyd yn clywed am dranc Santes Gwenfaen a hanes un gwr gafodd ei ymosod arno gan y Great Train Robbers.

Heledd Cynwal, Iestyn Jones and Siôn Tomos Owen visit Anglesey and Holy Island seeking out the area's more interesting and hidden tales. From the Skerries and Britain's largest colony of Arctic Terns, through the port town of Holyhead to the beauty of Llanddwyn Island, the sea has influenced the life and landscape of the area over the centuries. We also hear from a man who was attacked by the Great Train Robbers.

11:00 SAIN FFAGAN (R) (S) (SC) (HD)

Dyma olwg unigryw tu ôl i ddrysau Sain Ffagan. Ar ôl 6 mis o waith adnewyddu, mae'n bryd i'r sgaffald ddod i lawr oddi ar Dŵr y Cloc. Yn Fferm Kennixton, mae Ceri'r garddwraig yn cael hwyl yn glanhau'r lloriau wrth stampio perlysiâu o'r gerddi i mewn i'r pren.

A unique behind-the-scenes look at Saint Fagan's National Museum of History. After 6 months of restoration work, it's time for the scaffolding to come down on the refurbished Clock Tower. Gardener Ceri is having fun cleaning the floorboards at Kennixton Farm by stamping herbs into them!

11:30 DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL - Yr Emyr - Hen a Newydd (R) (S) (SC) (HD)

Lowri Morgan sy'n cymharu emynau ddoe a heddiw gyda Meinir Richards a Christopher Davies.

Lowri Morgan compares hymns old and new with Meinir Richards and Christopher Davies.

12:00 CARTREFI CYMRU - Tai'r 1960au a'r 1970au (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres lle bydd Aled Samuel a'r hanesydd adeiladau, Bethan Scorey yn edrych ar gartrefi Cymru drwy'r oesoedd. O oes y Tuduriaid hyd heddiw, byddwn ni'n agor y drws ar hanes ein cenedl drwy bensaerniaeth. Yn y rhaglen hon byddwn yn edrych ar dai o'r 1960au a'r 1970au.

A series where presenter Aled Samuel and buildings historian Bethan Scorey will be taking a look at Wales' homes through the ages. From the Tudor era up until today, we'll be exploring Wales' rich architectural history. In this programme we'll be focusing on houses from the 1960's and 1970's.

12:30 CARTREFI CYMRU - Tai'r 1980au a'r 1990au (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres lle bydd Aled Samuel a'r hanesydd adeiladau, Bethan Scorey yn edrych ar gartrefi Cymru drwy'r oesoedd. O oes y Tuduriaid hyd heddiw, byddwn ni'n agor y drws ar hanes ein cenedl drwy bensaerniaeth. Yn y rhaglen hon byddwn yn edrych ar dai o'r 1980au a'r 1990au.

A series where presenter Aled Samuel and buildings historian Bethan Scorey will be taking a look at Wales' homes through the ages. From the Tudor era up until today, we'll be exploring Wales' rich architectural history. In this programme we'll be focusing on houses from the 1980's and 1990's.

13:00 Y DEIS (R) (S) (SC) (HD)

Gêm gwis gwreiddiol ar gyfer timau sy'n cyfuno gwybodaeth gyffredinol, strategaeth a, gyda Deis yn ganolbwynt iddi, tamed bach o lwc! Yn ymuno â James Williams i gystadlu am y Jacpot heno mae: Delyth ac Elora, ffrindiau o Ddinas Mawddwy a Dolgellau; Hilma a Gwen, ffrindiau o Bontnewydd a Thregarth; a Cadi a Gwennan, ffrindiau o Drelech a Chynwyl Elfed.

Brand new quiz show for teams of two that combines knowledge, strategy and, like any roll of the dice, a little bit of luck. Joining James Williams to play for the Jackpot today are: Delyth and Elora, friends from Dinas Mawddwy and Dolgellau; Hilma and Gwen, friends from Pontnewydd and Tregarth; and Cadi and Gwennan, friends from Trelech and Cynwyl Elfed.

13:30 Y FETS (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Mae Ystwyth Fets yn Aberystwyth wedi bod yn trin anifeiliaid am dros ganrif, gyda phoblogrwydd anifeiliaid anwes mae 'na fwy o alw nag erioed ar y Fets. Does dim dal beth ddaw trwy'r drws - o'r llawdriniaethau mawr, i'r brechiadau rwtin, mae'r practis fel ffair. Ac mae'r gwaith ar hyd ffermydd yr ardal yr un mor brysur. Y tro yma ar y Fets mae gan Sofren y ci defaid anaf cas i'w lygad ac mae angen holl arbennigedd y fets i ddatrys problem Scooby y dachshund sydd fel arfer yn helpu ei berchennog y beinto tai!

Ystwyth Vets in Aberystwyth has been treating sick animals for over a century. With the increase in the popularity of domestic pets, the vets are busier than ever. There's no knowing what cases will come through their doors. From complicated operations to routine vaccinations, it's all go at the practice. The local farm call outs are also keeping them busy. This time on Y Fets - Sofren the sheepdog has a nasty eye problem, and the vets need all of their knowledge to solve Scooby's problems - a dachshund that loves to help his owner with the painting and decorating.

14:00 DIM CWSG I QUINNELL (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Pan mae Cymru yn mynd i gysgu mae na griw arbennig o bobl yn dechrau eu diwrnod. Yn ymuno â'r garfan ddiwyd yma am un shift unigryw mae'r eicon rygbi a'r dysgwr Cymraeg, Scott Quinnell. Y tro yma, mae Scott yn godro ar fferm ger Pen-y-bont ac yn creu wisgi yn Nistyllfa Aber Falls yn Abergwyngregyn.

When Wales goes to sleep there is an exceptional group of people who are starting their day. Joining this diligent squad for one unique shift is rugby icon and Welsh learner, Scott Quinnell. This time, Scott is milking on a farm near Bridgend and creating whiskey at AberFalls Distillery in Abergwyngregyn, near Bangor.

14:30 ADEILADU'R FREUDDWYD: CAMP OUT WEST (R) (S) (SC) (HD)

Byw heb forgois a chreu busnes newydd - dyna'r freuddwyd i Emilie a Jon James. Mae'r cwpwl wedi gwerthu popeth a phrynu darn o dir yng Ngorllewin Cymru i fyw gyda'u ci Maggie ac i adeiladu safle glampio. Ond mae 'na her anferthol o'u blaenau. *Living without a mortgage and creating a new business - that's the dream for Emilie and Jon James and their dog Maggie. The couple have sold everything and bought a piece of land in West Wales on which to build a glamping site. But there's a huge challenge ahead of them.*

15:00 ANTUR Y GORLLEWIN - Iwerddon (R) (S) (SC) (HD)

Cyfle arall i weld Iolo Williams yn profi bywyd gwyllt a thirwedd anhygoel ynysoedd Y Skelligs, Cilarne, Swydd Clare, Y Burren ger Doolin, Ballycroy ac Ynys Boffin ar arfordir gorllewinol Connemara, Iwerddon. *Another chance to follow Iolo Williams to Ireland where he enjoys the fantastic wildlife and landscape of the Skellig Islands, Killarney, County Clare, the Burren near Doolin, Ballycroy and Boffin Island on the west coast of Connemara.*

15:55 FFERMIO (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres gylchgrawn am faterion cefn gwlad. *Weekly countryside and farming magazine.*

16:25 CLWB RYGBI RHYNGWLADOL - LLOEGR V CYMRU (HD)

Cyfle arall i weld y gêm Chwe Gwlad rhwng Lloegr a Chymru o Stadiwm Twickenham. *Another chance to see the Six Nations game between England and Wales at Twickenham Stadium.*

18:10 POBOL Y CWM OMNIBWS (S) (AD) (HD)

Rhifyn omnibws yn edrych nôl ar ddigwyddiadau yng Nghwmderi dros yr wythnos ddiwethaf. Gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrîn. *Omnibus edition looking back at events in Cwmderi over the past week. With on-screen English subtitles.*

19:15 NEWYDDION A CHWARAEON (S) (HD)

Newyddion a chwaraeon y penwythnos. *Weekend news and sport.*

19:30 DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL - Cynefin William Morgan (S) (SC) (HD)

Nia Roberts sy'n dysgu am fywyd cynnar Esgob William Morgan ym mro ei febyd, Cwm Machno. *Nia Roberts visits Cwm Machno to learn about Bishop William Morgan and his Welsh Bible.*

20:00 SEREN JONES: YN FYW YN Y DŴR (R) (S) (SC) (HD)

Mae'r newyddiadurwr a'r cyn nofiwr elite Seren Jones yn gofyn pam bod cyn lleied o bobl Ddu ac Asiaidd yn nofio, ac yn colli eu bywydau yn y dŵr. Yn ystod y rhaglen mae Seren yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil rhyngwladol sy'n ceisio profi unwaith ac am byth nad yw dwysedd esgyrn pobl Ddu yn drymach na phobl gwyn a bod pawb yn gallu nofio ac arnofio. *Journalist and former elite swimmer, Seren Jones, asks why so few Black and Asian people swim, and why they are losing their lives in the water. During the programme, Seren takes part in international research that aims to prove once and for all that Black people do not have denser bones than white people and that everyone can swim and float.*

21:00 DAL Y MELLT - Y Dwrnod Mawr (S) (SC) (AD) (HD)

Gyda'r criw bellach yn y gogledd mae hi'n amser am heist arall. Mae'r pwysa'n anferthol efo bywyd Jiffy yn y fantol. All y criw dynnu'r job fwy erioed off yn llwyddiannus? Wrth gydweithio mae rwbath yn bosib... fydd hi'n ddiwedd glo hapus i Antonia a Carbo?

With the gang now up in North Wales it's time for another heist. The pressure's on with Jiffy's life at stake. Can the gang pull off the biggest job ever successfully? By working together, anything's possible... will it be a happy ending for Antonia and Carbo?

22:00 MARI GRUG: UN DYDD AR Y TRO (R) (S) (SC) (HD)

Ers derbyn diagnosis o gancer yn 2023 mae bywyd Mari Grug a'i theulu wedi newid yn syfrdanol. Dilynwn siwrnai Mari wrth iddi ddysgu dygymod a thriniaethau a jyglo bywyd fel mam a chyflwynydd, tra'n ceisio 'neud y mwyaf o bob dydd.

Since receiving a cancer diagnosis in 2023, Mari Grug's life and her family's life have changed dramatically. We follow Mari's journey as she learns to cope with treatments and juggle life as a mother and presenter, while trying to make the most of every day.

23:00 24 AWR NEWIDIODD GYMRU - Protest (R) (S) (SC) (HD)

Yr anturiaethwr Richard Parks sy'n cychwyn ar daith newydd cyffrous, i archwilio'r dyddiau allweddol sydd wedi newid cwrs hanes Cymru. Yn syfrdanol ac ysbrydoledig, dyma'r diwrnodau a greodd nid yn unig ein gwlad ni heddiw, ond ein byd cyfan. Y tro 'ma, mae Richard yn olrhain y newid sy'n dod dim ond pan fyddwn yn codi ein lleisiau mewn protest. Dyma stori Cymru mewn ffurf heb ei gweld erioed o'r blaen. "Mae adrodd ein stori ni yn ein hen iaith ni," medde Richard, sy'n dysgu Cymraeg, "yn sialens ac anrhydedd mwya fy mywyd."

Adventurer Richard Parks sets out on a vital new quest, to explore the crucial days that have changed the course of Welsh history. Surprising and inspiring, in triumph or despair, these are the days that forged not only our Wales, but our whole world. This time, Richard charts the change that only comes when we raise our voices in protest. It's the story of Wales as it's never been told before. "Telling our story in our language," says Welsh-learner Richard, "has been my toughest challenge and greatest honour."

23:50 DIWEDD/CLOSE

Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Llun - Monday 09/02/2026

06:00 **CYW (R) (HD)**

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

06:00 **OLOBOPS - Dail (R) (HD)**

Ar ôl diwrnod o gerdded yn y glaw mae Tib, Lalw, a Bobl yn dychwelyd adre i Goeden glyd, ac mae ymwelwyr ganddynt. Mae'r Dail wedi cynhyrfu gyda chartref yr Olobobs ond mae'r ymwelwyr wedi dechrau gwneud llanast. Sut gall Deilen Fawr helpu?

The Leafs follow the Olobobs home on a rainy day but after a tour of their treehouse the Olobob's excitement wears off when the Leafs start making a big mess! The Olobobs need to get them back outside, and fast!

06:05 **SAM TÂN - Hela Pryfed Estron! (R) (SC) (HD)**

Gem ffon yw Hela Pryfed Estron ac mae Norman, Mandy, Sara a Jams yn mwynhau ei chwarae ond mae na gystadleuaeth daer rhyngddyn nhw a Siarllys a Meic Flood. Mae'r plant mewn trafferth ar y mor mawr felly rhaid galw Sam Tan.

Alien Bug Hunt is a phone game and Norman, Mandy, Sara and Jams enjoy playing it but there is strong competition between them and Siarllys and Meic Flood. The children are in difficulties on the sea so Sam Tan must be called.

06:15 **JEN A JIM POB DIM - Pell ac Agos (R) (S) (SC) (HD)**

Mae Jen a Jim eisiau mynd am dro ar eu beiciau i rywle sy'n agos i'w cartre'. Ond sut mae gwybod pa lefydd sy'n agos a pha rai sy'n bell i ffwrdd?

Jen and Jim would like to go for a ride on their bikes, somewhere close to home, but how will they know which places are far and which are near?

06:30 **CHWEDLAU TINGA TINGA - Pam Does gan Neidr ddim Coesau (R) (S) (HD)**

Straeon lliwgar o Affrica am anifeiliaid y byd. Pam nad oes coesau gan Neidr?

Colourful stories from Africa about animals of the world. Today we find out why Snake has no legs.

06:45 **BYD TAD-CU - Pengwyniaid (R) (S) (SC) (HD)**

Pam bod pengwiniad ddim yn gallu hedfan?' Dyma cwestiwn Ela i Tad-cu heddiw. Mae gan Tad-cu stori am fudiad cyfrinachol o'r enw PENDI. Diolch byth bod gan Hati'r gwning-en ateb fwy gwyddonol i'w rannu gyda ni.

Why can't Penguins fly is the question Ela asks Tad-cu today. He has a story about a secret society by the name of PENDI. Thank goodness that Hati the rabbit has a more scientific answer to share.

07:00 **CYWION BACH - Trwyn (S) (SC) (HD)**

Trwyn mawr, trwyn bach, trwyn hir. Ie, Trwyn yw gair arbennig heddiw. Dere ar antur geiriau gyda'r Cywion Bach.

Big nose, small nose, long nose. Yes, Trwyn (Nose) is the special word today. Come on a word adventure with the Cywion Bach.

07:10 PABLO - Powlen Drist (R) (HD)

Mae gan Pablo ei ffordd ei hun o weld y byd, a pan mae mam yn gas efo powlen gymysgu, mae Pablo a'r anifeiliaid yn mynd i mewn i'r cwpwrdd i wneud y bowlen deimlo'n well.

When mum puts a mixing bowl back without using it, Pablo and his friends go into the cupboard to cheer it up.

07:20 MISHO - Mynd i'r Parti (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres sydd yn edrych ar pob math o sefyllfaoedd all godi pryder i blentyn bach; dyma gyfle i dawelu meddyliau bach drwy ganu, sgwrsio a lot fawr o chwerthin! Y teimlad o fod yn nerfus sydd dan sylw yn Misho heddiw, ac mae Pop yn ei gwneud hi'n anodd iawn i blentyn bach fynd i'r parti pen-blwydd.

A series that looks at various situations that can cause worry to a small child and how to ease those worries through singing, chatting and a lot of laughter! The feeling of being nervous is in question in Misho today, and Pop makes it difficult for a small child to go to the birthday party.

07:30 GUTO GWNINGEN - Hanes Dant Nel Gynffonwen (R) (SC) (HD)

Mae gan Nel Gynffonwen dant poenus ac mae Guto'n mynd drwy'r eira ar ei sled i nôl Dr Gynffon Gwta.

Nel Gynffonwen has a painful tooth, Guto takes his sled through the snow-covered woods to fetch Dr Gynffon Gwta.

07:45 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)

Mae Signor Silvo, ffrind Syr Gwil, yn dod ar wyliau i'r parc, ac fel diolch i'w ffrind mae Signor Silvo yn coginio'r pitsa perffaith i Syr Gwil.

Signor Silvo, Syr Gwil's friend, comes on holiday to the park, and as a thank you to his friend, Signor Silvo cooks the perfect pizza for Syr Gwil.

08:00 CYW (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

08:00 ANIFEILIAID BACH Y BYD (R) (S) (SC) (HD)

Dewch ar antur gyda ni i gwrdd ag anifeiliaid bach y byd. Anifeiliaid anwes yw'r thema y tro hwn a down i nabod y gath, y mochyn cwta a'r bochdew. *Come with us on an adventure around the world to meet some of the animals that live on our planet. The theme this time is pets and we get to know about cats, guinea pigs and hamsters.*

08:10 STIW - Diwrnod Gwyntog (R) (S) (HD)

Mae garej Taid yn llawn trugareddau, a daw hen gôt law yn ddefnyddiol iawn i drwsio barcud Stiwi.

An old waterproof jacket in Taid's garage proves to be ideal material to fix Stiwi's kite.

08:25 CARU CANU A STORI - Adeiladu Tŷ Bach (R) (S) (SC) (HD)

Mae'n ben-blwydd ar Llew Llygoden, ac mae'n edrych ymlaen at dderbyn parsel arbennig iawn.

It's Llew Llygoden's birthday, and he's looking forward to receiving a very special parcel indeed.

08:35 SION Y CHEF - Lleidr Coch Goes (R) (HD)

Mae brain yn bla ar fferm Magi. Tybed all dyfais newydd Jac Jô's ei helpu i gael gwared arnyn nhw?

Siôn helps Magi out on the farm by enlisting Jac Jô's errant drone to deal with a troublesome crow.

08:45 NE-WFF-ION (R) (S) (SC) (HD)

Newyddion i blant hyd at 6 oed a fydd yn diddannu ac yn eu dysgu am y byd o'u cwrpas nhw yn ei holl amrywiaeth.

News for children up to 6 years old which will entertain and teach them about the world in all its diversity.

09:00 OG Y DRAENOG HAPUS - Og yn Unig (R) (HD)

Mae Og yn teimlo'n unig pan mae ei ffrindiau i gyd yn rhy brysur i chwarae ag e.

Og feels lonely when all his friends are too busy to play with him.

09:05 TWM TWRCH - Mwydo Melys (R) (S) (SC) (HD)

Hoff fwyd Twm Twrch yw mwydod ond heddiw mae Dorti yn ei herio i fod fel hi a pheidio â bwyta mwydod.

Twm Twrch's favourite food is worms, but today Dorti challenges him to be like her and not eat worms at all.

09:20 EIN BYD BACH NI - Sweden (R) (S) (SC) (HD)

Dewch ar daith o gwmpas y byd! Heddiw bydd yr antur yn mynd â ni i wlad Sweden, i ddysgu mwy am dirwedd Sweden, bwyd traddodiadol fel peli cig ac ymweld â Stockholm sef y brifddinas.

Let's take a trip across the world! Today's adventure will take us to the country of Sweden, to learn more about its landscape, traditional food like meatballs and visit the capital city which is Stockholm.

09:30 JONI JET - Gwreiddiau Jetboi (R) (SC) (HD)

Diolch i dechnoleg estron, mae Joni'n dysgu bod angen mwy na doniau'n unig ar archarwr. Mae angen gwaith caled, ymarfer gofalus ac oriau lawer o astudio.

Thanks to alien technology, Joni learns that a superhero needs more than just talent. It requires hard work, careful practice and many hours of study.

09:45 CACAMWNCI (R) (S) (SC) (HD)

Mae Cacamwnci yn ôl gyda mwy o sgetsys dwl a doniol! Cymeriadau newydd sbon fel Iestyn Ymestyn, Tesni Trwsio Popeth, Dani Rheolaeth, a rhai o'r ffefrynnau fel Plismon Preis, Vanessa drws nesa a Delyth Dylwythen. Byddwch yn barod am lond bol o chwerthin!

Cacamwnci is back with more funny and silly sketches! There are new characters like Iestyn Ymestyn, Tesni Trwsio Pobeth, Dani Rheolaeth, and a few favourites like Plismon Preis, Vanessa drws nesa and Delyth Dylwythen. Be ready for a belly full of laughs!

10:00 CYW (R) (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

10:00 OLOBOPS - Ffosibob (R) (HD)

Mae'r Olobops wedi mynd am dro yn y goedwig ac yn dod o hyd i Ffosibob coll. Sut gall yr Olobops ei helpu i ffeindio'i ffordd adre?

The Olobops are enjoying a nice walk in the forest when they bump into a poor little Fozzybob who seems to be a bit lost. Can Eye-Spy help Fozzybob find her way home? Only if he can actually find her!

10:05 SAM TÂN - Pwy Adawodd y Gath Mas?! (R) (SC) (HD)

Pan mae Sam yn achub cath o ddraen, rhoddir y dasg i Hanna, Mandy, a Norman o ofalu amdani.

When Sam rescues a cat from a drain, Hanna, Mandy, and Norman are given the task of looking after it.

- 10:15 JEN A JIM POB DIM - Mw Mw Clwc Clwc Crac (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae'n dawl ar y fferm heddiw - mae'n rhaid bod rhywun ar goll. A all 'y llyfr pob dim' helpu Jen a Jim ddod o hyd i ba anifail sydd wedi diflannu?
The farm is quiet today - someone must be missing! Can the 'llyfr pob dim' help Jen and Jim find the missing animal?
- 10:30 CHWEDLAU TINGA TINGA - Pam fod Meerkat Wastad yn Cadw (R) (S) (HD)**
 Straeon lliwgar o Affrica am anifeiliaid y byd. Heddiw, cawn glywed pam mae Meerkat wastad yn cadw golwg ar bawb a phopeth.
Colourful stories from Africa about the animals of the world. Today we find out why Meerkat is always on the lookout.
- 10:45 BYD TAD-CU - Mwncïod (R) (S) (SC) (HD)**
 Pam bod mwncïod yn byw mewn coed'? yw cwestiwn Jamal i Tad-cu heddiw. Mae gan Tad-cu stori hurt, llawn hwyl am ddau fwnci drygionus o'r enw Jess a Caleb. Diolch i'r drefn, bod Hati'r gwningen ag ateb llawer mwy synhwyrol i'w rannu gyda ni.
Jamal's question today is why do monkeys live in trees and Tad-cu has an absurd story, full of fun about two cheeky monkeys named Jess and Caleb. Thank goodness that Hati the rabbit has a more sensible answer to share.
- 11:00 CYWION BACH - Siwmpwr (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae gair gwych heddiw. Dere i ddysgu ac arwyddo'r gair Siwmpwr gyda Bip Bip, Pi Po, Bop a Bw!
There is a great word today. Come to learn and sign the word Siwmpwr (Jumper) with Bip Bip, Pi Po, Bop and Bw.
- 11:10 PABLO - Am Lun Da! (R) (HD)**
 Mae gan Pablo ei ffordd ei hun o weld y byd, ond nid yw'n hoffi camera newydd nain. Mae'n rhaid i Draff esbonio i'r camera sut i beidio dallu pawb cyn fod Pablo yn hapus i gael tynnu ei lun
The new camera is very annoying, and it's not until Draff switches the flash off that Pablo is happy to have his picture taken.
- 11:20 MISHO - ...Cysgu yn Nhŷ Mam-gu (R) (S) (SC) (HD)**
 Cyfres sydd yn edrych ar pob math o sefyllfaoedd all godi pryder i blentyn bach; a dyma gyfle i dawelu meddyliau bach drwy ganu, sgwrsio a lot fawr o chwerthin! Y teimlad o fod yn bryderus sydd dan sylw yn Misho heddiw, ac mae Mr Diarth yn ei gwneud hi'n anodd iawn i blentyn bach aros yn nhŷ Mamgu.
A series that looks at various situations that can cause worry to a small child; and how to ease those worries through singing, chatting and a lot of laughter! The feeling of being anxious is in question in Misho today, and Mr Diarth makes it very difficult for a small child to stay over at Grandmas house.
- 11:30 GUTO GWNINGEN - Hanes Y be Dachi'n Galw (R) (SC) (HD)**
 Mae Guto Gwningen a'i ffrindiau'n trio darganfod beth yw dyfais newydd tad Benja, Mr Sponcen.
Guto Gwningen and his friends try to find out what Benja's dad's invention is used for.
- 11:45 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Signor Silvo, ffrind Syr Gwil, yn dod ar wyliau i'r parc, ac fel diolch i'w ffrind mae Signor Silvo yn coginio'r pítsa perffaith i Syr Gwil.
Signor Silvo, Syr Gwil's friend, comes on holiday to the park, and as a thank you to his friend, Signor Silvo cooks the perfect pizza for Syr Gwil.

12:00 NEWYDDION S4C A'R TYWYDD (S) (HD)

Newyddion S4C a'r Tywydd.
S4C News and Weather.

12:05 CAIS QUINNELL (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Yn y gyfres hon bydd y cyn chwaraewr rygbi Scott Quinnell yn mynd ar hyd a lled Cymru yn troi ei law at bob math o weithgareddau a phrofiadau amrywiol. Cyfle i ymarfer ei Gymraeg a dysgu geirfa newydd wrth gael llond ei fol o hwyl. Yr wythnos hon mae'n rhoi cynnig ar arlunio byw, Cartio ac yn cael gwers arwyddo Makaton.
In this series former international rugby player and Welsh learner Scott Quinnell travels around Wales and tries out various and interesting activities. A chance to practice his Welsh and learn new vocabulary whilst trying an array of different experiences. This week he'll be life drawing, Karting and having a Makaton signing lesson.

12:30 HENO (R) (S) (HD)

Rhaglen gylchgrawn nosweithiol gyda straeon o bob cwr o Gymru.
Nightly magazine with stories from all over Wales and special guests.

13:00 IAITH AR DAITH - Aleighcia Scott & Mali Ann Rees (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Y DJ a'r gantores Aleighcia Scott sy'n mynd â'r iaith ar daith trwy Gymru. Yn cadw cwmni iddi ac yn barod i ddysgu Cymraeg iddi mae'r actores Mali Ann Rees.
DJ and singer Aleighcia Scott embarks on a road trip across Wales as she attempts to learn the language of heaven! Keeping her company is actress Mali Ann Rees.

14:00 NEWYDDION S4C A'R TYWYDD (S) (HD)

Newyddion S4C a'r Tywydd.
S4C News and Weather.

14:05 PRYNHAWN DA (S) (HD)

Cyfres gylchgrawn gydag eitemau coginio a ffasiwn a chynghor am bopeth o addurno'ch cartref i ddewis llyfr da.
Magazine series including features on fashion, style, antiques and cookery.

15:00 NEWYDDION S4C A'R TYWYDD (S) (HD)

Newyddion S4C a'r Tywydd.
S4C News and Weather.

15:05 CANU GYDA FY ARWR - Bryn Fôn (R) (S) (SC) (HD)

Rhys Meirion sy'n gwireddu breuddwydion trwy roi cyfle unigryw i dri unigolyn lwcus gael canu gyda'u harwr cerddorol. Bydd Rhys yn teithio Cymru i gwrdd â chantorion amatur o bob oed sydd â lleisiau anghyffredin o dda, stori gwerth-chweil i'w rannu ac sy'n breuddwydio am gael canu gyda'u harwr. Yn y bennod gyntaf bydd yr athrawes Gymraeg Sioned Jones-Bevan, gweithwr bar o Wrexham Aled Griffiths a'r gweithiwr NHS o Borthmadog Dyfan Roberts yn cael cyfle i rannu'r llwyfan a pherfformio gyda'u harwr, Bryn Fôn.
Rhys Meirion makes dreams come true by giving three lucky individuals the chance to sing with their musical hero or heroine. Rhys travels the length and breadth of Wales to meet amateur singers of all ages who have impressive singing voices, a good story and who dream of singing with their hero. In the first episode, highschool schoolteacher Sioned Jones-Bevan, Wrexham barman Aled Griffiths and Dyfan Roberts, an NHS worker from Porthmadog, are given the opportunity to share the stage and perform with their hero, Bryn Fôn.

16:00 AWR FAWR (HD)

Rhaglenni ar gyfer y plant iau ar ôl ysgol.

Programmes for youngsters after school.

16:00 CYWION BACH - Hwyaeden (R) (S) (SC) (HD)

Mae'r Cywion Bach wrth eu bodd gyda gair heddiw, Hwyaeden.

Dere i chwarae, chwerthin a dysgu gair gwych gyda nhw. Cwac cwac!

The Cywion Bach love today's word, Hwyaeden (Duck). Come and laugh and learn a great word with them. Quack quack!

16:10 SAM TÂN - Y Tywysog ym Mhontypandy (R) (SC) (HD)

Mae Pontypandy yn llawn cyffro pan ddaw tywysog brenhinol i ymweld a rhoddir y cyfrifoldeb o drefnu'r digwyddiad i Wasanaeth Tân Pontypandy.

Pontypandy is abuzz with excitement when a royal prince comes to visit, and the Pontypandy Fire Service are given the responsibility of organizing the event.

16:20 EIN BYD BACH NI - Gwlad yr Iâ (R) (S) (SC) (HD)

Rhaglen i blant lle da ni'n ymweld a gwledydd y byd i ddysgu am yr hanes, bryd, tirwedd, plant a'r diwylliant yno. Y tro hwn: trip i Wlad yr Ia.

A programme for children in which we visit countries around the world to learn about the history, food, landscape, children and the culture there.

This time: a trip to Iceland.

16:30 GUTO GWNINGEN - Hanes Dwndwr y Twnnel (R) (SC) (HD)

Mae Guto a'i ffrindiau'n camgymryd synau Tomi Broch, sydd ar goll, am anghenfil yn eu twnnel.

Guto and his friends mistake the sounds of a lost Tomi Broch for a monster in their tunnels.

16:45 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)

Mae hi'n benblwydd ar Sioned Siop a does dim bwriad dathlu gan Sioned, ond gyda help ei ffrindiau mae Dion Diogelwch yn trefnu parti syrpreis iddi ac yn gwneud yn siwr fod Sioned yn cael dathliad i'w gofio.

It's Sioned Siop's birthday and Sioned has no intention of celebrating, but with the help of her friends, Dion Diogelwch organises a surprise party for her, making sure she has a celebration to remember.

17:00 STWNSH (HD)

Hwyl a sbri a chyfresi di-ri ar gyfer plant a phobl ifanc.

Tune in to see old favourites and new series for youngsters all over Wales.

17:00 BWYSTFIL (R) (HD)

Pa fwystfil neu greadur sy'n cael y sylw y tro yma?

What creature deserves our attention this time?

17:10 Y SMYRFFS - Cyfrinachau Smyrffiog (SC) (HD)

Mae Peniog yn trio dod o hyd i ffordd o achub ei ffrindiau rhag Craca Hyll sydd wedi gwisgo fel Smyrff er mwyn setlo yn y pentre' heb i neb ddeall.

Peniog must find a way to save his friends from Craca Hyll who has come into the Smurf Village disguised as a Smurf.

17:20 HEI HANES! - Y Pla Du (R) (S) (SC) (HD)

Drama-gomedi fywiog a chyfoes lle mae cymeriadau'n flogio'u straeon i ddod a hanes Cymru yn fyw. Yn 1349 mae 'na bandemig byd-eang ac mae Dyddgu a'i brawd Llŷr yn cael parti gwyllt tra mae eu rhieni oddi cartref. Ond pwy, neu beth, sydd wedi bod yn dwyn bwyd o'r tŷ a llechu yn y buarth? Ysbryd? Bwystfil? Dilynwch flog Dyddgu er mwyn clywed y stori arswydus yma.

A vibrant comedy-drama where characters bring Welsh history alive through vlogging their lives. It's 1349, amidst a terrible pandemic, but Dyddgu and her brother Llyr deal with the absence of their parents by throwing a wild party. But what is that frightful noise that's coming from the pig sty and why is the food going missing? Follow Dyddgu as she confronts her worst fears in this fright-filled tale.

17:45 NEWYDDION NI (S) (SC) (HD)

Newyddion i bobl ifanc.

News programme for youngsters.

18:00 CARTREFI CYMRU - Tai'r 1960au a'r 1970au (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres lle bydd Aled Samuel a'r hanesydd adeiladau, Bethan Scorey yn edrych ar gartrefi Cymru drwy'r oesoedd. O oes y Tuduriaid hyd heddiw, byddwn ni'n agor y drws ar hanes ein cenedl drwy bensaerniaeth. Yn y rhaglen hon byddwn yn edrych ar dai o'r 1960au a'r 1970au.

A series where presenter Aled Samuel and buildings historian Bethan Scorey will be taking a look at Wales' homes through the ages. From the Tudor era up until today, we'll be exploring Wales' rich architectural history. In this programme we'll be focusing on houses from the 1960's and 1970's.

18:30 ROWND A ROWND (R) (S) (AD) (HD)

Ar ôl i Mair fethu â mynd i mewn i'r clinig erthylu mae Sophie a Vince yn trio eu gorau i'w helpu, ond mae'n anodd iddi benderfynu â'i rhieni a Ioan isio dau beth mor wahanol. Mae Trystan yn ofni fod Rhys yn gor-wneud pethau yn y gym, ond mae Rhys yn benderfynol o ddatblygu ei gyhyrau, er bod goblygiadau peryglus i hynny. A thra mae Elliot yn gobeithio'r gorau am drwsio'r power washer, bydd Philip yn gobeithio'r gorau y gall Mel ddygymod ei hun yn caffi. Gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrîn.

